# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 26 Mehefin 2018 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Meirick Davies, Mabon Ap Gwynfor, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: yr Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd (GW), Gwella Busnes a Moderneiddio (AS) a Swyddog Cyllid / A.151 (RW); Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK); Rheolwr Adain Cludiant i Deithwyr (PD); Swyddog Arweiniol - Eiddo a Stoc Tai Corfforaethol (DL); Rheolwr Yswiriant a Risg (CJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitem 9 ar y rhaglen – Adroddiad Cyllid (Alldro Ariannol 2017/18)-

Y Cynghorydd Meirick Davies - Llywodraethwr Ysgol Cefn Meiriadog ac Ysgol Trefnant
Y Cynghorydd Emrys Wynne – Llywodraethwr Ysgol Borthyn

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Mai 2018.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at y cwestiynau a godwyd mewn perthynas â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a oedd yn adlewyrchu lefel uchel o graffu a fyddai'n well mewn pwyllgor archwilio. Gan fod y Cabinet yn fforwm gwneud penderfyniadau gofynnodd i'r aelodau ganolbwyntio ar argymhellion yr adroddiad a bod unrhyw eitem sydd angen ei graffu'n fanylach yn cael ei gyfeirio drwy'r broses archwilio.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2018 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

**5 GWELEDIGAETH A STRATEGAETH DWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU: TREFNIADAU LLYWODRAETHU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad ynglŷn â'r Cytundeb Llywodraethu sy'n ofynnol er mwyn ffurfioli trefniadau cyfansoddiadol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a rhoi pwerau gwneud penderfyniadau iddynt o fewn y terfynau rhagnodedig.

Darparwyd rhywfaint o wybodaeth gefndir ynglŷn â chymeradwyaeth cydweithrediadau blaenorol er mwyn mabwysiadu'r Weledigaeth Twf a datblygu Cynnig Bargen Twf. Roedd y cam nesaf yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer cam cyntaf y Cytundeb Llywodraethu gan chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru-ceisiwyd cymeradwyaeth y Cabinet am ei fod yn ymwneud â threfniadau gweithredol yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar gyfer y trefniadau anweithredol. Roedd y Cytundeb Llywodraethu cyntaf yn ymwneud â'r cam paratoadol a datblygiadol hyd at ganol mis Gorffennaf 2019. Wedi hynny byddai angen cymeradwyo Cytundeb Llywodraethu manylach i fynd i'r afael â cham gweithredu a darparu'r prosiect.

Croesawodd y Cabinet y cynnydd o ran datblygu'r Cynnig Twf a phwysleisio bod angen trefniadau llywodraethu cadarn, yn enwedig wrth symud ymlaen i'r ail gam o flaenoriaethu prosiectau yn y rhanbarth a'r cyfraniadau ariannol. Mewn ymateb i gwestiynau cafwyd yr ymatebion canlynol gan yr Arweinydd a Phennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd -

- nodwyd aelodaeth y Bwrdd a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe awdurdod lleol, dwy brifysgol, dau goleg addysg bellach a Chyngor Busnes Merswy Dyfrdwy Gogledd Cymru a chadarnhau'r darpariaethau sydd ar waith ar gyfer eilydd enwebedig a chynrychiolwyr ychwanegol i sicrhau parhad.
- Cadarnhawyd mai model cydbwyllgor yw'r mwyaf priodol o ran llywodraethu ar hyn o bryd ond gofynnwyd i Lywodraeth Cymru greu model sy'n fwy priodol gan mai dim ond yr awdurdodau lleol sydd â hawliau pleidleisio ac nid oes darpariaeth o'r fath ar gyfer y partneriaid.
- Ymhelaethwyd ar y map llywodraethu a oedd yn cynnwys fforwm budd-ddeiliaid gyda chynrychiolwyr o'r sectorau perthnasol a monitro'r Bwrdd ac eglurwyd y byddai'r ail gam yn cynnwys sefydlu nifer o is-grwpiau amrywiol.
- eglurwyd y darpariaethau yn Atodiad 1 (Polisi Dirprwyaeth), pwynt 21 a oedd yn ymwneud â materion achlysurol gydag unrhyw brif faterion yn cael eu cadw'n ôl fel y nodwyd yn y tabl.

- cynghorwyd bod pob awdurdod lleol yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd gan eu Harweinydd a byddai penderfyniadau'n cael eu llunio'n unol â'r trefniadau llywodraethu a gytunwyd gydag atebolrwydd clir.
- Eglurwyd bod cyllid o £50,000 wedi'i ymrwymo i symud ymlaen â'r gwaith cychwynnol ond byddai angen ystyried buddsoddiad pellach wrth i faterion symud ymlaen ac wrth i gostau prosiectau posibl a chyfraniadau ariannol ddod yn fwy eglur
- eglurwyd y trefniadau craffu a fyddai'n golygu craffu lleol yng ngham cyntaf y Cytundeb Llywodraethu gyda'r posibilrwydd o graffu'n rhanbarthol yn yr ail gam.
- eglurwyd cyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol o ran prosiectau posibl yn y dyfodol gyda Bodelwyddan wedi'i nodi fel blaenoriaeth ar gyfer yr ardal –nid oedd effaith ar y trefniadau presennol o ganlyniad i'r Cytundeb Llywodraethu.

***PENDERFYNWYD –***

*(a) Nodi a chroesawu'r cynnydd ar ddatblygiad y Cynnig Bargen Twf;*

*(b) Cymeradwyo cam cyntaf y Cytundeb Llywodraethu yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor o'r trefniadau anweithredol h.y. trefniadau ar gyfer Craffu;*

*(c) Cyflwyno drafft terfynol Cynnig Bargen Twf i'r Cyngor i'w adolygu a'i gymeradwyo ym mis Medi / Hydref cyn y cam o lunio penawdau'r telerau gyda'r ddau Lywodraeth;*

*(d) Y rhoddir yr awdurdod i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus a Phennaeth y Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, i benderfynu ar delerau terfynol y Cytundeb Llywodraethu'n unol â'r drafft sydd ynghlwm â'r adroddiad hwn, a*

*(e) Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r trefniadau gweithredol a nodwyd yn y Cytundeb Llywodraethu ac yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo eu cynnwys yn y Cyfansoddiad ynghyd â'r trefniadau anweithredol yn ymwneud â Chraffu.*

## 6 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 4 – 2017-18

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i aelodau ar gyflawni Cynllun Corfforaethol 2017 - 22 ar ddiwedd chwarter 4 o 2017/18.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys dwy brif elfen -

- Crynodeb Gweithredol – yn nodi cyflawniadau / eithriadau allweddol gyda dau ddarn o sylwebaeth ar gyfer pob blaenoriaeth:
  Statws Perfformiad a Chynnydd Rhaglen
- Adroddiad chwarterol llawn – wedi'i gynhyrchu o System Rheoli Perfformiad Verto ac yn darparu asesiad yn seiliedig ar dystiolaeth o'r sefyllfa bresennol.

Roedd eglurhad ar gyfer Statws Perfformiad a Chynnydd Rhaglen pob blaenoriaeth wedi'i gynnwys yn yr adroddiad gyda materion allweddol yn cael sylw a'u trafod ymhellach yn y cyfarfod. Roedd dau faes wedi'u hasesu fel Coch: Nid oedd Blaenoriaeth ar gyfer Gwella (1) Cymunedau Gwydn a (2) Pobl Ifanc o dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor gyda mwy o gyfranogiad gan bartneriaid allanol. Disgwylir lefelau perfformiad isel ar y cam cynnar hwn ond dros amser disgwylir i'r lefelau perfformiad a rhaglen gyfateb â chanlyniad statws 'da' o leiaf. Cyfeiriwyd hefyd at y trefniadau llywodraethu a rôl y Byrddau Rhaglen wrth asesu briffiau prosiect ac achosion busnes.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd yr Aelodau'r materion canlynol –

- eglurwyd y dulliau adrodd ar gyfer monitro perfformiad a chynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol, roedd hyn yn cynnwys adroddiadau i'r Cabinet, Pwyllgorau Archwilio, Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.
- Darparodd y Cynghorydd Bobby Feeley ragor o wybodaeth am faterion yn ymwneud â'i phortffolio gan gynnwys datblygiadau tai gofal ychwanegol a fyddai'n lleihau'r niferoedd sy'n aros mewn cartrefi gofal preswyl; prosiect i ddarparu mwy o gefnogaeth i ofalwyr; adborth cadarnhaol ar gyfer y Pwynt Mynediad Sengl a Thimau Ardal i gefnogi annibyniaeth pobl, ac ystod o waith arall sydd ar y gweill i gymell gwelliannau
- Eglurodd y Cynghorydd Brian Jones fod y Strategaeth Priffyrdd wedi bod yn destun proses graffu gadarnhaol ac roedd darlun o waith stryd yn cael ei gyflwyno i'r Grwpiau Ardal Aelodau; adroddodd hefyd ar gynnydd y rhaglen triniaeth wyneb ffordd.
- Roedd y Cynllun yn fwriadol uchelgeisiol a heriol ac roedd wedi'i alinio ag amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran blaenoriaethu Cymunedau Gwydn a Chlymu Cymunedau; ychwanegodd y Prif Weithredwr bod y Cynllun wedi derbyn blaenoriaeth a darparwyd sicrwydd o ran ei ddarpariaeth yn y dyfodol.
- Cwestiynodd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor y statws perfformiad derbyniol ar gyfer Clymu Cymunedau o ystyried cyflwr annerbyniol ffordd B4401 a diffyg gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.
  Eglurwyd y dull o asesu a meincnodi perfformiad yn erbyn awdurdodau eraill yng Nghymru- fodd bynnag cydnabuwyd bod darnau o ffordd a oedd yn is na'r safonau hyn. Cytunodd y Cynghorydd Brian Jones y byddai'n olrhain y mater o ran B4401 ac anogodd yr unigolion i gofrestru digwyddiadau ar system CRM.
- cadarnhaodd y swyddogion bod y ffigwr cyffredinol ar gyfer tai cyngor newydd yn cynnwys prynu cyn-dai cyngor yn ôl a chytuno y byddant yn egluro'r mater mewn adroddiadau yn y dyfodol.
- Gofynnodd y Cynghorydd Rhys Thomas i'r Cabinet ystyried, er bod yr adroddiad yn cael ei fesur yn erbyn targedau cenedlaethol cyffredinol, roedd meysydd yn tanberfformio mewn cymunedau unigol ac na ddylid diystyru'r rhain.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd chwarter 4 o 2017/18.*

## 7 SEFYDLU SYSTEM BRYNU DDEINAMIG AR GYFER GWASANAETHAU CLUDO TEITHWYR

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i ddechrau proses gaffael i sefydlu system brynu ddeinamig (DPS) ar gyfer cludiant i weithredu cludiant i ddysgwyr a gwasanaethau bws lleol ar draws Sir Ddinbych.

Byddai'r system yn disodli'r broses dendro draddodiadol gyda system gaffael sy'n fwy effeithlon, yn cefnogi anghenion busnes y cyngor a chynorthwyo i ddarparu gwerth am arian. Nid oedd cost ychwanegol o ganlyniad i'r System newydd a byddai'n galluogi'r cyngor i dendro am wasanaethau fel y caniateir yn y gyllideb.

Cyfeiriodd y Rheolwr Cludiant i Deithwyr at y trafodaethau gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i ychwanegu'r gwasanaeth hwn at fframwaith y System newydd ar yr amod bod yr holl ddogfennau gofynnol wedi'u paratoi erbyn terfyn amser Gorffennaf 2018. Canmolodd y Cynghorydd Bobby Feeley y broses newydd a chefnogi'r diwygiad i gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion, ac fe gefnogwyd hyn gan y Cabinet.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a)* *Cymeradwyo dechrau'r broses gaffael i sefydlu System Brynu Ddeinamig (DPS) ar gyfer cludiant i ddysgwyr a gwasanaethau bws lleol;*

*(b)* *Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd i benodi cyflenwyr i'r System DPS yn ystod ei defnydd, ar yr amod bod y cyflenwyr yn diwallu'r meini prawf cymhwyso ar gyfer eu penodi; ac i dynnu cyflenwyr nad ydynt eisiau bod arno bellach neu nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwyso i fod yn rhan o'r DPS;*

*(c)* *Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd i gynnal cystadlaethau bychan o dan y System yn ystod ei defnydd a dyfarnu contractau fel bo'r angen; a*

*(d)* *Chadarnhau y gellir ymestyn y trefniadau i gludiant gofal cymdeithasol oedolion.*

## 8 SEFYDLU FFRAMWAITH CYNNAL A CHADW TAI GWAG

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ddechrau proses gaffael a llunio contract i benodi nifer o gontractwyr i fframwaith i ymgymryd â gwaith adnewyddu i eiddo domestig gwag sy'n eiddo i'r cyngor (sy'n cael eu hadnabod fel unedau gwag).

Byddai darparu fframwaith yn lleihau'r costau a'r amser a dreulir yn cyflawni gwaith ar dai gwag a chredir mai dyma'r datrysiad mwyaf manteisiol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion llawn a manyleb y fframwaith arfaethedig gan gynnwys rhaniad pris 60% ac ansawdd 40% gyda gwerth disgwyliedig o £11m dros bedair

blynedd. Roedd posibilrwydd caffael cydweithredol wedi'i ystyried ond wedi'i ddiystyru yn yr achos hwn oherwydd y gwahaniaethau mewn anghenion.

Darparodd Prif Swyddog - Eiddo a Stoc Tai Corfforaethol yr atebion canlynol i'r cwestiynau-

- ymhelaethodd ar yr adnoddau mewnol sydd ar gael i ymgymryd â gwaith ar dai gwag a oedd yn tueddu i ganolbwyntio ar waith adweithiol ac roedd yn destun adolygiad ar hyn o bryd
- Eglurodd y rhesymau dros y rhaniad 60% pris a 40% ansawdd a chydnabod bod y prisiau yn tueddu i fod yn debyg ond byddai ansawdd yn cael ei fonitro drwy'r fframwaith – byddai'r broses newydd yn lleihau'r amser a dreulir ar y broses dendro ac yn caniatáu mwy o amser i ganolbwyntio ar ansawdd ac adolygu costau.
- pwysleisiodd bod angen contractwyr sydd wedi'u lleoli yn yr ardal leol a chyflogi preswylwyr Sir Ddinbych drwy gyfres o gynlluniau budd cymunedol gyda'r nod o wneud y mwyaf o'r twf economaidd lleol a disgwylir ymateb da gan gontractwyr lleol
- cadarnhaodd cyfartaledd o 250 o eiddo gwag y flwyddyn ac eglurodd bod yr unedau gwag yn rhai dros dro sy'n aros am waith i wella eu safon ar gyfer tenantiaid newydd
- cydnabuwyd manteision y safonau ansawdd newydd ar gyfer tai cyn eu gosod ond roedd yr amser cyfnewid wedi cynyddu o ganlyniad; roedd disgwyliad y byddai'r amser cyfnewid yn lleihau ymhellach o dan y fframwaith newydd

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo dechrau'r broses gaffael i sefydlu fframwaith a phenodi contractwyr ar gyfer y gwaith amrywiol.*

Ar y pwynt hwn (11.30am) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

## 9 ADRODDIAD ARIANNOL (SEFYLLFA ARIANNOL DERFYNOL 2017/18)

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad ar y sefyllfa alldro refeniw terfynol ar gyfer 2017/18 a'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau.

Tywyswyd yr aelodau drwy fanylion yr adroddiad a'r atodiadau. Yn fyr, roedd y sefyllfa alldro derfynol ar gyllidebau corfforaethol a gwasanaeth (gan gynnwys ysgolion) yn danwariant o £1.244m (0.7% o'r gyllideb refeniw net). Roedd y prif feysydd i'w nodi wedi cael eu hamlygu ac yn cynnwys gwell sefyllfa ariannol ar gyfer ysgolion (sefyllfa diffyg ariannol net o £0.343m, i lawr o £1.056m y llynedd), ynghyd â phwysau ar Wasanaethau Cymorth Cymunedol; Addysg a Gwasanaeth Plant a Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd, a thrafodwyd y materion hynny ymhellach yn y cyfarfod. Cyfeiriwyd at y trosglwyddiadau i ac o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chafodd nifer o drafodion diwedd y flwyddyn eu hargymell i'w cymeradwyo hefyd. Tynnwyd sylw hefyd at y sefyllfa o ran arenillion o Dreth y Cyngor. O ystyried y sefyllfa gyffredinol o fewn gwasanaethau ac argaeledd cyllid corfforaethol, cynigiwyd bod y gwasanaethau yn dwyn ymlaen y tanwariant net a restrir fel balansau gwasanaethau ymrwymedig er mwyn helpu i gyflawni strategaeth cyllideb 2018/19 a bodloni ymrwymiadau sy'n bodoli eisoes.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y meysydd canlynol -

- Gwasanaethau Addysg a Phlant – cafwyd trafodaeth ac eglurhad am y pwysau y mae'r gwasanaeth yn ei wynebu a'r ansicrwydd o ran costau lleoliadau y tu allan i'r sir a oedd yn cael effaith sylweddol ar y gyllideb ac y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.
  Nodwyd bod hyn yn broblem genedlaethol ledled Cymru a'r DU ac roedd gwaith archwilio ar y gweill yn rhanbarthol i ystyried opsiynau i ddatblygu darpariaeth yn lleol er bod anghenion rhai o'r plant yn gymhleth iawn. Roedd uno'r Gwasanaethau Addysg a Phlant wedi darparu cyfleoedd i sefydlu mesurau ymyrraeth gynnar ac atal wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc er mwyn ceisio atal yr anghenion rhag dwysau a darparu rhywfaint o wydnwch gan ddibynnu'n llai ar ddarpariaeth statudol.
- Ysgolion – Cydnabuwyd y pwysau yr oedd yr ysgolion yn eu hwynebu ond darparwyd sicrwydd bod prosesau cynllunio ariannol cadarn yn eu lle i gefnogi ysgolion gan arwain at welliant o ran y sefyllfa ariannol ar gyfer ysgolion gyda sefyllfa diffyg net llai o dros £300mil o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
  Gan fod gan rhai ysgolion falansau mawr gofynnwyd i Fforwm Cyllideb Ysgolion adolygu'r polisi ynglŷn â balansau ysgolion. Tynnwyd sylw at rôl bwysig y Cyrff Llywodraethu o ran rheoli ysgolion, yn enwedig o ran yr heriau ariannol y byddai'r ysgolion yn eu hwynebu yn y dyfodol.
- cytunodd y Pennaeth Cyllid y byddai'n darparu manylion i'r Cynghorydd Mark Young ynglŷn ag incwm blynyddol o'r mast ffôn symudol ar y Tŵr Awyr yn y Rhyl.
  Roedd incwm o'r fath yn cael ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer y gwasanaeth sy'n gyfrifol am yr ased.

Nododd y Cabinet bod y sefyllfa alldro cyffredinol yn dda o ystyried yr amgylchiadau presennol a chanmolodd yr Arweinydd y modd y cynhaliwyd y gwasanaethau o dan bwysau ac i safon uchel a diolchwyd i'r swyddogion am hynny.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a)* *nodi'r sefyllfa alldro refeniw derfynol ar gyfer 2017/18;*

*(b)* *cymeradwyo'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd a balansau wrth gefn fel y manylir yn yr adroddiad ac yn Atodiadau 1, 2 a 3 a*

*(c)* *nodi manylion y trosglwyddiadau i ac o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd fel y nodwyd yn Atodiad 4.*

## 10 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllid y cytunwyd arni. Darparodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor –

- roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2018/19 yn £194.418m (£189.252m yn 2017/18)

- Rhagwelir y bydd gorwariant o £1.210 miliwn ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- nododd arbedion ac effeithiolrwydd a gytunwyd o £4.6m gan gynnwys y rhai a gyflawnwyd eisoes gan dybio y byddai'r holl effeithiolrwydd/ arbedion gwasanaeth yn cael eu darparu - byddai unrhyw eithriadau yn cael eu hadrodd i'r Cabinet pe bai angen
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r gwahaniaethau mewn perthynas â meysydd gwasanaeth unigol, a
- darparwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol).

Holodd yr Arweinydd ynglŷn â'r pwysau parhaus a nodwyd yn yr Adran Priffyrdd a'r Amgylchedd yn ymwneud â'r diffyg incwm o ganlyniad i faint y gwaith a'r ad-daliadau gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Cadarnhaodd y Cynghorydd Brian Jones nad oedd y lefelau incwm blaenorol yn bosibl bellach ac roedd y gwasanaeth yn adolygu'r mater. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid y byddai'r pwysau yn cael ei ystyried fel rhan o broses cyllideb 2019/20. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bobby Feeley, darparodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts sicrwydd y gellir cynnwys cyllid i fynd i'r afael â'r angen ar gyfer mwy o ofod awyr agored yn Ysgol Stryd y Rhos yng Nglasdir o fewn y gyllideb arian at raid heb unrhyw gostau ychwanegol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol a chytunwyd arni.*

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nodwyd y byddai gwerthusiad opsiynau ar gyfer darpariaeth gorfodaeth troseddau amgylcheddol yn y sir yn y dyfodol yn cael ei ychwanegu at raglen waith mis Medi.

***PENDERFYNWYD*** *Nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

## Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 12 DYRANNU CONTRACT GWASANAETHAU YSWIRIANT

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth i ddyfarnu contract yswiriant y Cyngor i'r darparwyr a enwyd fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Roedd contract yswiriant presennol y Cyngor yn dod i ben ar 30 Gorffennaf 2018 ac roedd angen contract newydd o'r dyddiad hwn ymlaen. Roedd manylion y rhaglen yswiriant wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ynghyd â gwerthusiad o'r tendrau a gyflwynwyd ac roedd yr argymhellion yn seiliedig ar yr opsiwn mwyaf economaidd.

Nodwyd nad oedd yswiriant yn faes sy'n addas ar gyfer caffael mewn cydweithrediad oherwydd gofynion unigol. Ymhelaethodd y swyddogion ar y broses dendro a gwerthuso mewn ymateb i'r cwestiynau ac roedd y Cabinet yn falch o nodi y gellir arbed costau o ystyried amodau presennol y farchnad heb unrhyw fwlch mewn darpariaeth na chynnydd mewn tâl atodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) Dyfarnu'r contract i'r ddau ddarparwr yswiriant a nodwyd ar gyfer Eitemau 1-6 fel y nodwyd yn yr adroddiad ar gontract tair blynedd gyda'r opsiwn bod y Cyngor yn ymestyn am ddwy flynedd arall ac opsiwn arall bod y Cyngor yn ymestyn am ddwy flynedd arall wedi hynny yn dibynnu ar amodau'r farchnad (fel y nodir yn yr Adroddiad Argymhellion Dyfarnu Contract sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad), ac*

*(b) Awdurdodi Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd i gytuno a llunio contract priodol gyda phob yswiriwr er mwyn penodi yswiriwr fel darparwr yswiriant y Cyngor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm.